HWB

SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN

# LLYTHRENNEDD DIGIDOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021



# CYNNWYS


Cyflwyniad 4

Sut i ddefnyddio'r pecyn 6

Beth yw llythrennedd digidol? 10
- Beth yw llythrennedd digidol? 10
- Cysylltiad cellog a chysylltiad WIFI 12

Cyfrifoldeb Digidol 15
- Diogeli gwybodaeth personol 16
- Adnabod twyllo? 18
- Hawlfraint 20
- Y trwyddedau: 20
- Gweithgareddau amhriodol neu anghyfreithlon ar-lein 21
- Ôl traed digidol 21

Cynhyrchiant Digidol 23
- Y Tri 'T' 23
- Gwerthuso'r Tri 'T' 25
- Trefnu ffeiliau digidol 27
- Diogelu ffeiliau digidol 29
- Gwarchod gyda chyfrinair 30
- Ffeiliau wrth gefn 31
- Gwrth-firysau a waliau tân 31

Llythrennedd Gwybodaeth 34
- Arbed gwybodaeth 38

Cydweithio Digidol 42
- Arbed y cydweithio yn saff 45

Creadigrwydd Digidol 49
- Defnyddio creadigrwydd digidol i gwblhau tasg neu ddatrys problem 50
- Cyfryngau 51
- Technegau 55

Dysgu Digidol 62
- Ffyrdd o ddysgu ar-lein 64
- Creu adnodd a gwerthuso 67


Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# CYFLWYNIAD

Mae'r pecyn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar Lefel 1 a Lefel 2, sy'n anelu at gymhwyster Llythrennedd Digidol neu unrhyw un sydd eisiau hybu eu sgiliau digidol. Mae'r pecyn yn canolbwyntio ar y gwahanol ffyrdd o ddefnyddio technoleg mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Mae'r pecyn yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Beth yw llythrennedd Digidol.
- Cymryd cyfrifoldeb mewn amrywiaeth o gymunedau ac amgylcheddau digidol.
- Gallu cynhyrchu, trefnu a storio gwybodaeth digidol a'u rhannu yn ddiogel.
- Chwilio am wybodaeth digidol yn effeithlon.
- Gwybod sut i gydweithio ar-lein yn effeithiol.
- Deall sut i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau a thechnegau creadigol.
- Gallu defnyddio llythrennedd digidol i ymestyn cyfleoedd dysgu.

Ewch ati i gwblhau'r pecyn, un cam ar y tro! Ymchwiliwch yn ddyfnach i mewn i bynciau os ydych yn ansicr ac awgrymwn i chi roi digon o seibiannau i'ch hunan wrth ei gwblhau fel nad yw'r pynciau yn pentyrru.

### Nodyn ychwanegol

Mae'r pecyn yn rhoi cyfarwyddiadau cyffredinol i gwblhau tasgau felly o bosib bydd y camau'n amrywio rhywfaint yn ddibynnol ar y technoleg rydych yn ei ddefnyddio. Defnyddiwch beiriant chwilio ar-lein am gyfarwyddiadau manwl ar gyfer eich technoleg penodol chi os ydych yn cael trafferth, ond dylai fod yn debyg iawn i'r hyn sydd yn y pecyn.

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol



# SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN

Ar ddechrau pob rhan mae cyflwyniad yn esbonio pwnc a'r camau sydd angen i gwblhau'r ymarferion a'r tasgau.

Yna, mae gwaith ymarferol a thasgau i'w cwblhau ym mhob rhan. Mae modd i chi gwblhau'r pecyn mewn rhannau, felly cwblhewch y cyfan yn bwyllog gan gofio cymryd seibiannau rheolaidd.

Gallwch ddefnyddio'r pecyn yn ddigidol, ond os hoffech gopi caled, gallwch ei argraffu a'i lenwi â llaw.

Llenwch y blychau ar y tudalennau perthnasol ym mhob pwnc a dangoswch eich nodiadau a'ch drafftiau ar y tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y pecyn. Gallwch ysgrifennu eich nodiadau ar bapur ac yna mewnosod lluniau i'r tudalennau ychwanegol i gyd-fynd â'ch atebion.

Drwy'r pecyn hwn fe welwch chi nifer o symbolau gwahanol. Bydd rhai o'r rhain yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu, tra bod eraill - fel y blychau atebion a tudalennau cyfrifo - yn eich caniatáu i lenwi'r pecyn yn ddigidol.

Dyma gyflwyniad i'r elfennau yma:



## GWYBODAETH BWYSIG

Drwy'r pecyn, fe ddewch chi ar draws y symbol yma. Mae'r rhain yn tynnu eich sylw at wybodaeth bwysig sy'n ymwneud â'r pwnc neu'r ymarfer.

Sicrhewch eich bod yn eu darllen yn ofalus.



## UWCHLWYTHO LLUNIAU

Ar gyfer ambell i ymarfer, e.e creu posteri a chyflwyniadau neu dangos ciplun (*screenshot*), fe welwch chi'r eicon camera yma. Pan welwch chi'r eicon yma gallwch uwchlwytho llun o'ch gwaith yn uniongyrchol i'r dudalen.

Gall hyn fod yn lun neu, os ydy'r gwaith wedi'i gwneud ar gyfrifiadur, yn fersiwn digidol (jpg/png/pdf) o'r gwaith.

## YMARFERION - LLENWI ATEBION

Mae'r ymarferion i gyd yn eich caniatáu i lenwi'r atebion yn ddigidol yn y ddogfen. Er bod amrywiaeth mewn sut mae'r cwestiynau wedi'u gosod, mae'r blychau atebion i gyd wedi'u fformatio yr un peth i fod yn glir ble sydd angen i chi lenwi.

Dyma ambell i enghraifft o osodiad cwestiynau gwnewch chi ddod ar draws yn y pecyn:

### Cwestiwn ac ateb testun.

Gall rhain fod yn flychau ateb un llinell, fel yn y llun cyntaf, neu'n flwch testun mwy o faint os oes disgwyl ateb hirach.

Os yw eich ateb yn hirach na maint y bocs, peidiwch â phoeni - mi fydd y blwch yn caniatáu i chi barhau i deipio ynddo drwy leihau maint y ffont, neu gynnig bar sgrolio i ddarllen yr ateb cyfan.

Os ydych chi angen rhagor o le, geler y dudalen nesaf sy'n esbonio'r tudalennau ateb ychwanegol sydd ar gael i chi.

### Cwestiwn aml-ddewis

Mi fydd rhai cwestiynau yn cael eu hateb drwy ddewis opsiynau o ddewislen. Cliciwch y botwm i agor y rhestr, yna dewiswch eich ateb.

## NODIADAU

HWB
SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 1. LLYTHRENNEDD DIGIDOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# BETH YW LLYTHRENNEDD DIGIDOL?

## Beth yw llythrennedd digidol?

Llythrennedd digidol yw'r gallu a'r sgil i ddarganfod, gwerthuso, defnyddio, rhannu a chreu cynnwys gan ddefnyddio wahanol adnoddau digidol.

Rydych yn defnyddio gwahanol dechnoleg, adnoddau a thechnegau digidol yn wythnosol, os nad yn ddyddiol. Pa fathau o dechnoleg, adnoddau neu dechneg rydych chi'n eu defnyddio?

Y **dechnoleg** yw'r ddyfais rydych yn ei ddefnyddio i ddefnyddio'r **adnodd** a'r **dechneg** yw sut rydych yn defnyddio'r adnodd e.e. defnyddiaf **ffôn** symudol fel technoleg i ddefnyddio'r rhaglen **'camera'** fel fy adnodd, fel techneg rwy'n defnyddio **fflach** i'w wneud yn oleuach.

### Ymarfer

Defnyddiwch y restr ganlynol i'ch helpu.
Pa dechnoleg/adnodd/techneg digidol byddech chi'n:

- gwylio rhaglenni/ffilmiau?
- gwrando ar gerddoriaeth?
- siopa ar-lein?
- tynnu lluniau?
- chwilio am wybodaeth?
- cyfathrebu â phobl (ar lafar/ysgrifenedig)?
- ysgrifennu dogfennau?

Gall problemau godi wrth ddefnyddio technoleg a/neu adnoddau digidol ac mae angen gwybod sut i'w datrys.

Pa fathau o broblemau cyffredin gall godi?

- Rhaglenni yn rhewi
- Rhaglenni sydd wedi eu diweddaru ddim yn gydnaws (compatible) gyda ddyfais.
- Dibynnu ar rwydwaith neu gysylltiad i'r we.
- Batri dyfais yn rhedeg yn isel.
- Anghofio cyfrinair/ cyfrineiriau.
- Difrod dŵr, electrig neu ffisegol.
- Colli ffeiliau digidol/ ddim arbed yn gywir.

## Cysylltiad cellog a chysylltiad WIFI

Mae 'cysylltiad cellog' (*cellular data*) yn cael ei ddefnyddio ar ffôn neu dabled ar gyfer cyfathrebu data mewn rhwydweithiau cellog– e.e. defnyddio ffôn heb WIFI/ 3G/4G (defnyddio *AirDrop*/*Blutooth* a.y.b.).

Mae'r mwyafrif o'n technoleg yn cysylltu at WIFI drwy focs "*router*" diwifr e.e. mae "teledu clyfar" yn gallu cysylltu at WIFI er mwyn ffrydio rhaglenni/ffilmiau oddi ar y we, neu ffôn symudol i gysylltu dros y we. Ond gall y cysylltiad fod yn wael, sut byddech yn datrys hyn?

## Hotspot a Tethering

Mae "*hotspot*" yn leoliad go iawn ble mae pobl yn gallu cael mynediad at y we – fel arfer drwy ddefnyddio technoleg WIFI. Gellir gwneud hyn drwy rwydwaith di-wifr ardal lleol (*wireless local area network* - WLAN) yn defnyddio "*router*" sydd wedi ei gysylltu gyda ddarparwr gwe.

Mae "*hotspots*" cyhoeddus ar gael gan nifer o fusnesau ar gyfer eu cwsmeriaid mewn sawl ardal trefol o gwmpas y byd e.e. caffis. Mae sawl gwesty yn cynnig WIFI i'w gwesteion, naill ai mewn ystafelloedd gwely neu yn y fynedfa. Mae "*hotspots*" yn wahanol i fannau mynediad di-wifr h.y. dyfeisiau (caledwedd) sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth rhwydwaith di-wifr. Mae "*hotspots*" preifat yn eich caniatáu i gael mynediad at y we ar ddyfais (fel tabled) drwy ddyfais arall sydd gyda digon o ddata e.e. ffôn symudol.

*Tethering* yw cysylltu un dyfais gyda dyfais arall. Mae *tethering* yn eich caniatáu i rannu cysylltiad we y ffôn neu dabled gyda dyfeisiau eraill sydd methu cysylltu â'r we e.e. gliniadur. Gall y cysylltiad o'r ffôn neu dabled gyda dyfeisiau eraill fod trwy LAN di-wifr (WI-FI), drwy *Bluetooth* neu drwy gysylltiad go iawn yn defnyddio cebl.

## Rhaglenni

Mae rhaglenni (*apps/applications*) yn ffordd sydyn o gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth ar eich technoleg personol. Ond gall y rhaglenni hyn fynd yn araf, gallent rewi a'ch rhwystro rhag cael mynediad. Os bydd hyn yn digwydd, o bosibl mae angen diweddaru meddalwedd eich technoleg, neu mae angen dileu a lawr-lwytho'r rhaglen eto.

Gall y math o dechnoleg rydych yn ei ddefnyddio fod yn fwy addas ar gyfer rhaglenni penodol. Er enghraifft, os ydych yn defnyddio technoleg *Apple*™, yw hi'n bosib i yrru *imessage* at dechnoleg *Android*™? Beth bynnag yw'r technoleg rydych yn ei ddefnyddio, ydych chi'n gallu lawrlwytho unrhyw raglen?

Yn y tabl isod, defnyddiwch yr adnoddau/technoleg rydych wedi rhestru yn y blwch blaenorol i ddangos pa fath o broblem all godi a sut byddech chi'n ei ddatrys.

Mae un esiampl lawn wedi'i osod yn barod, llenwch y blychau ac ychwanegwch esiamplau eich hun.

| Adnodd/Technoleg | Problem gyffredin | Sut i'w ddatrys |
|---|---|---|
| Gliniadur | Colli pŵer – batri fflat<br>Dim digon o le i storio dogfennau | Gwefru'r gliniadur<br>Creu cyfrif arbed dogfennau ar-lein |
| | Dim digon o le i storio lluniau/fideos | |
| | | Lawrlwytho y diweddariad newydd |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

HWB
SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 2. CYFRIFOLDEB DIGIDOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# CYFRIFOLDEB DIGIDOL

## Pam bod diogelwch ar-lein yn bwysig?

Mae cadw eich hunan yn ddiogel ar-lein yr un mor bwysig â chadw eich hunan yn ddiogel yn gorfforol o ddydd i ddydd.

Mae bod yn ddiogel ar-lein yn golygu amddiffyn eich hun ac eraill rhag niwed a risgiau. Gallai hyn fod yn berygl at eich gwybodaeth personol, eich lles a'ch iechyd meddwl neu gallai arwain at gyfathrebu peryglus.



## Sut i...gadw eich gwybodaeth personol yn ddiogel

### Rhoi cyfrinair cadarn i'ch cyfrifon

Mae angen defnyddio cyfrinair cadarn ar gyfer eich holl ddyfeisiau a'ch cyfrifon. Mae'n bwysig nad oes neb ond chi yn gwybod y manylion hyn.

Dylech osgoi rhifau neu eiriau fyddai'n hawdd i unrhyw un ddyfalu (eich dyddiad geni/enw).

Defnyddiwch gyfuniad o brif lythrennau a llythrennau bach, rhifau a symbolau a'u newid yn aml. Mae'n bwysig i greu cyfrinair unigryw bob tro yn lle defnyddio yr un cyfrinair ar gyfer sawl gwefan.

Peidiwch a chadw eich cyfrinair ar unrhyw ddyfais sydd ddim yn berchen i chi.

### Bod yn gyfrifol ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae defnyddio gwahanol gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn gyffredin iawn yn ein bywydau bob dydd. Mae'n ffordd dda i gadw mewn cyswllt gyda ffrindiau ar draws y byd, ond gall fod yn le hawdd i rywun ddwyn eich hunaniaeth.

Ceisiwch beidio rhannu gwybodaeth yn ormodol ar y cyfryngau cymdeithasol fel nad oes llawer o wybodaeth ar gael i rywun ei ddwyn. Mae postiadau twyll yn cael eu rhannu'n aml arnynt hefyd ac maent yn gofyn i chi rannu gwybodaeth megis cyfenw blaenorol eich rhiant neu enw eich anifail anwes cyntaf mewn ffordd diniwed. Gall y wybodaeth yma gael ei ddefnyddio i ddwyn eich hunaniaeth neu ddyfalu eich cyfrineiriau.

Mae opsiwn yng ngosodiadau'r gwefannau i 'gloi' neu 'cyfyngu' diogelwch eich cyfrif fel eich bod yn gallu rhwystro unrhyw ddieithryn rhag eich dilyn a gweld eich manylion.

### Defnyddio dulliau e-dalu ar gyfer gwneud taliadau ar-lein

Wrth siopa ar-lein mae'n holl bwysig i wirio os yw'r gwerthwr yn gyfreithlon ac i wirio adolygiadau gan gwsmeriaid eraill.

Gallwch ddefnyddio cwmni e-dalu er mwyn talu am bethau ar-lein yn ddiogel gan fod hyn yn lleihau'r risg o dwyll. Mae sawl cwmni e-dalu gallwch ddefnyddio, megis *Paypal/Google Pay* a.y.b.

### Bod yn ofalus wrth ddefnyddio 'rhyngrwyd am ddim'

Defnyddiwch 'rhyngrwyd am ddim' yn ofalus gan fod mesuriadau diogelwch rhwydweithiau am ddim yn gallu bod yn llac iawn.

Mae hyn yn golygu bod mynediad yn aml i eraill sy'n defnyddio'r un rhyngrwyd â chi i weld beth rydych chi'n gwneud ar eich dyfais chi yn eithaf rhwydd.

Felly, mae'n awgrym i beidio talu am unrhyw beth tra rydych wedi cysylltu gyda rhyngrwyd cyhoeddus am ddim i osgoi lladrata.

## Amgryptio data sensitif

Gallwch amgryptio data sensitif wrth roi cyfrineiriau ar eich dyfeisiau a'ch gwaith i rwystro eraill rhag eu gweld.

Er enghraifft, rydych wedi amgryptio yr holl ddata sydd ar eich ffon symudol chi os oes cod neu cyfrinair i'w dad-gloi. Mae'n diogelu yr holl wybodaeth ar eich ffôn pe tasech chi'n ei golli.

Gallwch amgryptio eich gwaith chi i rwystro unrhyw un rhag gallu ei weld hefyd. Gallwch roi cyfrinair arno neu roi cyfyngiadau i ond y bobl penodol rydych wedi rhannu gyda sy'n gallu ei weld.

## Bod yn wyliadwrus o ddolenni mewn e-byst a negeseuon

Byddwch yn wyliadwrus o ddolenni mewn e-byst a negeseuon oherwydd gallai fod yn rywun sy'n esgus bod yn sefydliad dilys.

Peidiwch â chlicio ar ddolenni gan anfonwr yn syth, mae ffyrdd o wirio os yw'r ddolen yn saff neu beidio.

Pan rydych yn derbyn dolen, symudwch eich llygoden dros y ddolen i weld os yw'r ddolen yn mynd i wefan dibynadwy e.e. os yw'r anfonwr yn dweud eu bod nhw o'r Swyddfa Bost, yw'r ddolen yn mynd i fynd at y wefan gywir? Gallwch wirio hyn wrth wneud chwiliad *Google* sydyn.

## Gwiriwch bod y wefan yn saff

Gwnewch yn siŵr bod y wefan yn ddiogel – dylai bod **clo** yn y blwch ar y chwith o unrhyw wefan diogel. Peidiwch â rhoi manylion personol mewn unrhyw wefan sydd heb glo yn y gornel.

Mae hefyd gwahaniaeth rhwng gwefan sy'n dechrau gyda **http** a **https**. Mae https ar ddechrau gwefan yn fwy diogel na gwefan gyda http gan ei fod yn amgryptio data a gwybodaeth rydych yn mewnosod ar y wefan. Mae hyn yn golygu bod eich data yn saffach ar wefan https.

## Defnyddio meddalwedd gwrth-firws


Mae meddalwedd gwrth-firws yn raglen sydd wedi ei greu i ganfod, rhwystro a chael gwared o firysau neu unrhyw feddalwedd peryglus o'ch dyfeisiau.

Mae'n eich rhybuddio o beryglon wrth ddefnyddio gwefannau a dolenni ac yn rhwystro sbam a hysbysebion.

Rhwystro negeseuon twyll yn ogystal â diogelu eich hunaniaeth ar-lein.

## Ydych chi’n gallu adnabod pan rydych yn cael eich twyllo?

1. Rydych wedi derbyn neges gan ffrind ar y cyfryngau cymdeithasol sy’n darllen:




2. Rydych wedi derbyn neges destun gan y Swyddfa Bost sy’n darllen:




**Er gwybodaeth:**

Dydych chi ddim yn disgwyl parsel.

3. Rydych wedi derbyn galwad ffôn gan eich banc:

Helo, rydw i'n ffonio o'r sgwad twyll i sicrhau bod taliad rydych chi wedi'i wneud yn ddilys. Gallwn ni ddim cymeradwyo y taliad nes eich bod chi wedi ateb ein cwestiynau. Ydych chi'n hapus i barhau?




### Er gwybodaeth:

Dydyn nhw ddim yn gofyn am fanylion eich cyfrif banc na'ch cyfrinair, maent yn gwirio am beth mae'r taliad, os ydych yn ymddiried yn y gwerthwr ac os ydych yn sicr nad yw'n dwyll.

4. Rydych wedi derbyn e-bost gan eich cwmni dŵr sy'n darllen:

Mae problem wedi codi wrth gymryd eich taliad mis yma.
Dilynwch y linc yma i adnewyddu eich manylion talu:
https://mywaterbillpay.com




### Er gwybodaeth:

Rydych yn mewngofnodi i'ch cyfrif banc ac mae'r taliad diwethaf wedi mynd ar amser.

Yn ogystal â hyn rydych wedi gwirio eich manylion ar wefan y cwmni dŵr a dydyn nhw ddim yn disgwyl taliad.

## Hawlfraint

Mae'n bwysig i wirio os oes angen hawlfraint i ddefnyddio delweddau ar-lein.

Os nad ydych yn gwirio hyn ac yn defnyddio unrhyw ddelwedd o'r we gallwch chi fod yn derbyn anfoneb am ei ddefnyddio heb ganiatâd.

Mae gwefannau penodol ar gael i chi ddefnyddio delweddau heb angen poeni am hawlfraint fel: *Pixabay, Unsplash* neu *Pexels*

Gallwch hefyd ymchwilio ar *Google* am rai sydd am ddim i'w defnyddio. Gallwch wneud hyn wrth fynd i mewn i '*Tools*' yn eich chwiliad *Google*, '*Usage Rights*' a dewis yr opsiwn perthnasol.

!

Os ydych yn defnyddio gwefan wahanol i chwilio arlein, gallwch fel arfer ddod o hyd i'r opsiynau trwdded yn y dewisiadau sydd o dan y bar chwilio.

## Trwyddedau Creative Commons

Mae'r logo '*Creative Commons*' ar ddelwedd yn dangos ei fod yn saff i chi ei ddefnyddio ond mae dal angen gwirio os oes amodau neu drwyddedau.

Gall fod gan ddelwedd, cymysgedd o'r trwyddedau, felly mae'n bwysig gwybod beth mae'n nhw'n eu golygu.

### Y trwyddedau:

***Attribution*** – eich caniatáu i addasu a rhannu'r gwaith, hyd yn oed yn fasnachol, ond eich bod yn rhoi clod i'r awdur gwreiddiol. **BY**

***NoDerivs*** – eich rhwystro rhag rannu cread a gafodd ei addasu. **ND**

***ShareAlike*** – angen sicrhau eich bod yn rhoi'r drwydded unfath â'r gwreiddiol ar y cread newydd. **SA**

***NonCommercial*** – eich rhwystro rhag defnyddio'r cread yn fasnachol. **NC**

## Gweithgareddau amhriodol neu anghyfreithlon ar-lein

Mae canlyniadau gweithgareddau amhriodol neu anghyfreithlon ar-lein yn amrywio'n fawr, o gor-bryder personol, colli swydd neu niweidio eich enw da i achos llys neu arestiad yn ddibynnol ar ba mor ddifrifol yw'r weithgaredd. Gall eich gweithgaredd ar-lein hefyd effeithio eich cyflogaeth nesaf. Mae cyflogwyr yn aml yn gwirio cyfrifon cymdeithasol ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol bob amser.

Dyma rai esiamplau o weithgareddau amhriodol/anghyfreithlon a'r canlyniadau posibl:

| Gweithgaredd | Canlyniad posibl |
|---|---|
| Bwlio ar-lein | Pryder emosiynol, seicolegol a chorfforol |
| Sylwadau amhriodol (hil neu rywiol) | Dirwy neu garchariad, trafferth cael cyflogaeth |
| Torri cyfreithiau hawlfraint (lluniau / cerddoriaeth / llên-ladrad) | Dirwy swmpus neu garchariad, colli swydd |
| Ffrydio ffilmiau/rhaglenni o wefan anghyfreithlon | Firysau, dwyn hunaniaeth neu hacio |
| Rhannu llun rhywiol o'ch hun/eraill | Achos llys / carchariad, colli swydd, trafferth cael cyflogaeth arall |
| Hacio | Dirwy neu garchariad |

## Ôl traed digidol

Wrth i chi ddefnyddio'r we rydych yn gadael ôl traed digidol. Gall hyn gynnwys y gwefannau rydych wedi defnyddio a'r gwybodaeth rydych chi wedi ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol, neu gall fod eich 'hanes pori' a'r *Cookies* rydych yn eu derbyn ar wefannau.

Mae'n bosibl i leihau eich ôl traed digidol wrth dynhau gosodiadau preifatrwydd eich cyfrifon, dileu eich hanes pori a rheoli opsiynau *Cookies*.

Gallwch wneud adolygiad o'ch ôl traed digidol eich hunan wrth chwilio am eich hun a gwirio eich hanes pori.

### Tasg - Darganfyddwch eich ôl traed digidol

Chwiliwch am eich enw eich hun ar-lein.

Ydych chi wedi darganfod gwybodaeth hoffwch sicrhau sydd ddim yn gyhoeddus?

Ysgrifennwch baragraff ar yr hyn rydych wedi ei ddarganfod am eich hun

HWB
SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 3. CYNHYRCHIANT DIGIDOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# CYNHYRCHIANT DIGIDOL

I ddefnyddio technoleg mor effeithlon â phosibl, mae angen sicrhau ein bod yn gallu asesu, dewis a defnyddio'r adnoddau a'r technolegau mwyaf priodol er mwyn cwblhau tasgau amrywiol. Wrth ddefnyddio'r technoleg hyn, mae problemau'n codi'n aml felly mae'n bwysig gwybod sut i'w datrys.

## Y Tri 'T'

| **Technolegau** (*Technologies*) | **Adnoddau** (*Tools*) | **Technegau** (*Techniques*) |
|---|---|---|
| Y ddyfais sy'n cael ei ddefnyddio i wneud tasg.<br><br>e.e. Cyfrifiadur | Y rhaglen, gwefan neu feddalwedd sy'n cael ei ddefnyddio i wneud tasg.<br><br>e.e. *Microsoft Publisher* | Sut rydych chi'n defnyddio'r rhain a'r gyfer tasg.<br><br>e.e. Ychwanegu llun |

Mae gwahanol dechnoleg, adnoddau a thechnegau ar gael ar gyfer cwblhau tasgau amrywiol ac mae'n bwysig i chi adnabod pa un dylech ddefnyddio ar eu cyfer.

### Ymarfer

Llenwch y blychau isod:

1. Tasg – Rhannu fideo gyda ffrind.

| **Technolegau** (*Technologies*) | **Adnoddau** (*Tools*) | **Technegau** (*Techniques*) |
|---|---|---|
| Ffôn symudol | | Copïo'r ddolen a'i bostio yn y sgwrs gyda'r ffrind. |

2. Tasg – Creu cod QR.

| **Technolegau** (*Technologies*) | **Adnoddau** (*Tools*) | **Technegau** (*Techniques*) |
|---|---|---|
| | Gwefan sy'n creu côdau QR ar gyfer eu sganio. | Rhannu'r côd QR gyda'r pobl perthnasol. |

3. Tasg – Cadw data sensitif yn saff.

| **Technolegau** (*Technologies*) | **Adnoddau** (*Tools*) | **Technegau** (*Techniques*) |
|---|---|---|
| | *Microsoft Excel* | |

4. Tasg – Ysgrifennu traethawd.

| **Technolegau** (*Technologies*) | **Adnoddau** (*Tools*) | **Technegau** (*Techniques*) |
|---|---|---|
| Cyfrifiadur | | Ychwanegu dolenni at y rhestr llyfryddiaeth o'r gwefannau rydych wedi'u defnyddio. |

5. Tasg – Creu poster.

| **Technolegau** (*Technologies*) | **Adnoddau** (*Tools*) | **Technegau** (*Techniques*) |
|---|---|---|
| | | |

## Gwerthuso'r Tri 'T'

Mae tipyn o bethau gallwn ystyried wrth i ni asesu, dewis a defnyddio'r technolegau a'r adnoddau gwahanol hyn i gwblhau tasg.

Pethau sydd angen eu hystyried a gwerthuso wrth ddewis technoleg:

**Cynnal a chadw** »
Oes angen addasu'r technoleg dros amser?
Oes costau cynnal a chadw?

**Nodweddion** »
I ba raddau mae nodweddion y technoleg/adnodd yn cyrraedd eich prif ddibenion?
E.e. Yw defnyddio ffôn symudol i wneud cyflwyniad yn addas?
Neu yw defnyddio Excel i wneud poster yn addas?

**Pa mor hawdd yw'r dechnoleg/adnodd i'w ddefnyddio?** »
Oes angen lawrlwytho sawl peth?
Oes angen hyfforddiant er mwyn ei ddefnyddio neu a yw'n ddigon hawdd i'w ddeall yn syth gyda chyfarwyddiadau clir?

**Diogelwch** »
Yw'r adnoddau rydych yn ei ddefnyddio yn dilyn rheolau GDPR?
Ble mae'r data yn cael ei gadw?
Yw'r data yn gyhoeddus?

**Hyblygrwydd** »
Yw'r adnoddau yn gallu cael eu haddasu ar eich dibenion?
Gallwch chi newid yr iaith?
Lefel y gêm?
Lliw y sgrin?

**Arloesedd** »
Faint o amser sydd angen buddsoddi i weithredu a gwella'r dechnoleg?

**Costau** »
Faint mae'n costio?
Oes cost am y dechnoleg i ddefnyddio'r adnodd?
Taliad am y rhaglen neu am danysgrifiad (e.e. *Photoshop*)?
Costau trwydded (e.e. *Adobe*)?

**Integreiddio gyda thechnoleg arall** »
Yw'n bosib i integreiddio eich technoleg/adnodd gyda *Google/Microsoft*?
Ydych chi'n gorfod aros gyda'r un math o dechnoleg (e.e. *Apple/Android*)?

Pa dechnoleg ydych chi'n ei ddefnyddio i gwblhau'r pecyn hwn?

Gan ddefnyddio'r cwestiynau ar y dudalen flaenorol i'ch helpu, llenwch y tabl wrth feddwl am y technoleg hwn.

| | |
|---|---|
| Cynnal a chadw | |
| Nodweddion | |
| Hawdd i'w ddefnyddio? | |
| Diogelwch | |
| Hyblygrwydd | |
| Arloesedd | |
| Costau | |
| Integreiddio gyda thechnoleg arall | |


## Sut i drefnu ffeiliau digidol

- Nythu ffolderi o fewn ei gilydd mewn llwybr addas.
- Clirio a thacluso unrhyw hen ffeiliau yn reolaidd.
- Rhowch pob dogfen o dan un ffolder canolog ‘gwraidd’.
- Rhowch enwau rhesymegol a synhwyrol i’ch ffeiliau.
- Cofiwch wneud ‘*back-up*’ neu ail-arbed ffeiliau yn rheolaidd.


Os oes sawl math gwahanol o ffeiliau a dogfennau mae angen meddwl am gategorïau addas ar eu cyfer. Edrychwch ar y rhestr o ddogfennau a ffeiliau isod, mae angen eu grwpio i mewn i ffolderi fel ei fod yn haws i ddarganfod dogfennau yn y dyfodol.

## Creu ffolder newydd


1. I greu ffolder newydd, ewch i’ch chwilotwr ffeiliau a mynd i’r adran perthnasol (ble rydych chi eisiau arbed y dogfennau).
2. Cliciwch ar yr opsiwn ‘Ffolder Newydd’ (‘*New Folder*’) ac mi fyddai’n ymddangos.




3. Cliciwch dwywaith (yn araf) ar y ffolder i newid teitl y ffolder. Bydd yn uwch-oleuo y teitl yn las i allu golygu.




4. Newidiwch deitl y ffolderi yn deitl perthnasol ar gyfer y categori (rhywbeth perthnasol i’r hyn rydych am fod yn arbed yn y ffolder hwnnw).



## Ymarfer

Trefnwch y dogfennau isod i'r 4 grŵp ar wahân a dewiswch deitl perthnasol ar gyfer pob categori.

| Enw | Dyddiad addasu | Math |
|---|---|---|
| Canu pen-blwydd hapus i Nain | 28/10/2020 15:08 | Ffeil MP4 |
| Cyllideb personol - arbed am y gwyliau!! | 26/07/2021 16:12 | Dalen Waith Microsoft Excel |
| Darllen pellach Uned 2 | 22/07/2021 14:40 | Adobe Acrobat Document |
| E-docynnau Sioe Gerdd | 22/07/2021 14:40 | Adobe Acrobat Document |
| Incwm a gwariant gwaith 2021 | 26/07/2021 16:12 | Dalen Waith Microsoft Excel |
| Llawlyfr Uned 2 | 26/07/2021 16:07 | Dogfen Microsoft Word |
| Llun o'r teulu | 18/02/2021 17:33 | Ffeil JPG |
| Manylion cyswllt cwsmeriaid | 26/07/2021 16:12 | Dalen Waith Microsoft Excel |
| Nodiadau Uned 3 | 26/07/2021 16:07 | Dogfen Microsoft Word |
| Recordiad Gweithdy Uned 2 | 28/10/2020 15:08 | Ffeil MP4 |
| Recordiad Gweithdy Uned 3 | 28/10/2020 15:08 | Ffeil MP4 |
| Syniadau gwyliau | 26/07/2021 16:07 | Dogfen Microsoft Word |
| Traethawd Uned 2 | 26/07/2021 16:07 | Dogfen Microsoft Word |
| Tystiolaeth Uned 2 | 17/03/2021 16:31 | Ffeil MP4 |
| Tystysgrif 'no claims' gyrru | 22/07/2021 14:40 | Adobe Acrobat Document |
| Tystysgrif TGAU | 22/07/2021 14:40 | Adobe Acrobat Document |
| Y teulu ar ein gwyliau | 18/02/2021 17:33 | Ffeil JPG |

| Teitl Ffolder | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dogfennau | | | | |


## Sut i ddiogelu ffeiliau digidol

Mae diogelu ffeiliau yn bwysig iawn – gallwch wneud hyn drwy:


- Amgryptio a rhwystro ffeiliau/ffolderi rhag gallu cael eu golygu
- Gwarchod gyda chyfrinair
- Ffeiliau wrth gefn a storio ar gwmwl diogel
- Meddalwedd gwrth-firysau a waliau tân

## Amgryptio ffolderi/ffeiliau


1. Dde-gliciwch ar y ffeil yn y ffolder – yna cliciwch ar Priodweddau (*Properties*).




2. Yna ticiwch y bocs "Cudd" (*Hidden*) a gwasgu'r botwm – "Mwy" (*Advanced*).
Sylwch ar y bocs "Darllen-yn-unig" hefyd, bydd hwn yn rhwystro unrhyw un rhag golygu'r ddogfen.





3. Ticiwch 'Amgryptio'r cynnwys i ddiogelu data'. Bydd hyn yn diogelu'r data rhag unrhyw un sydd eisiau ei ddarllen heb ganiatâd.



## Gwarchod gyda chyfrinair

Gallwch ddiogelu eich ffeiliau drwy ychwanegu cyfrinair i'r dogfennau hefyd.
Agorwch y ddogfen hoffwch roi cyfrinair arno, cliciwch ar 'Diogelu' yn y rhan 'Adolygu' (*Review*), bydd clo ar y symbol.
Cliciwch ar hwn a bydd bocs yn ymddangos i chi roi cyfrinair o'ch dewis chi ar y ddogfen.

Ni fyddai gan unrhyw un arall mynediad at y ddogfen heb y cyfrinair. O bosibl byddai'n syniad gwneud nodyn o'r cyfrinair rhag ofn i chi ei anghofio oherwydd bydd yn anodd cael mynediad heb y cyfrinair hwnnw




**COFIWCH!**

Ystyriwch ddiogelwch eich cyfrinair.

(Gweler dudalen 16 am gymorth)

## Ffeiliau wrth gefn a storio ar gwmwl diogel

Gallwch greu ffeiliau 'wrth gefn' drwy storio copïau o'ch dogfennau a'ch manylion personol ar galedwedd neu ddyfais storio ategol ("co bach"/"teclyn USB").

Fel arfer mae eich ffôn symudol yn storio ffeiliau wrth gefn yn awtomatig i galedwedd wrth gysylltu gyda'ch cyfrifiadur. Mae'n arbed y ffeiliau a'r gwybodaeth personol sydd gennych ar eich ffôn rhag ofn i chi ei golli ac yn ei storio mewn ffeiliau saff ar y cyfrifiadur. Yna, os ydych yn colli eich ffôn ac yn cysylltu ffôn newydd i'r cyfrifiadur gallwch uwch-lwytho'r ffeiliau a'r data i'r ffôn newydd e.e. rhifau eich cysylltiadau, rhaglenni oedd gennych a.y.b.

Mae defnyddio 'storfa cwmwl' yn ffordd arall o storio ffeiliau wrth gefn ac mae sawl un ar gael i chi ddefnyddio. Ymchwiliwch ar-lein am 'storfa cwmwl' ac mae nifer o opsiynau yn codi e.e. *Dropbox*, *iCloud*, *Onedrive*, *GoogleDrive* a.y.b.

I ddefnyddio storfa cwmwl mae angen creu cyfrif ar y gwefan o'ch dewis. Bydd hwn wedyn yn eich caniatáu i uwch-lwytho eich ffeiliau a manylion personol iddo i gadw copi saff ar-lein.

## Meddalwedd gwrth-firysau a waliau tân

Mae meddalwedd gwrth-firysau yn cael eu defnyddio i amddiffyn a diogelu eich dyfais rhag bygythiadau ar-lein. Wrth i chi ddefnyddio'r we bydd y meddalwedd yn gwirio'r gwefannau rydych yn eu defnyddio ac yn eich rhybuddio os nad ydynt yn ddiogel. Os ydych yn defnyddio gwefannau anniogel gall eich manylion fod mewn perygl, gall bobl hacio eich cyfrifiadur a dwyn eich dogfennau/ffeiliau personol. Defnyddiwch feddalwedd gwrth-firysau i rwystro hyn rhag digwydd.

Mae waliau tân yn ddyfais diogelu rhwydwaith sy'n monitro ac yn hidlo y traffig sy'n mynd i mewn ac allan o'r rhwydwaith, ac mae'n seiliedig ar bolisïau diogelu sefydledig blaenorol y sefydliad. Mae fel wal sy'n sefyll rhwng rwydweithiau mewnol preifat a'r rhyngrwyd cyhoeddus i wirio am anghysondeb.

## Tasg

Defnyddiwch ddau ddull o ddiogelu data a gwerthuswch nhw. Esboniwch sut maent yn gweithio ac adolygwch eich profiad o'u defnyddio – beth oedd yn dda/wael?

### Dull 1

### Dull 2

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 4. LLYTHRENNEDD GWYBODAETH

HWB SGILIAU HANFODOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# LLYTHRENNEDD GWYBODAETH

Mae allweddeiriau a'r ymadroddion rydym yn eu defnyddio yn ddibynnol ar y pwnc, ond mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r eirfa fwyaf priodol i ganfod yr wybodaeth orau.

Bydd yr eirfa rydych yn ei ddefnyddio yn eiriau sydd yn cael eu defnyddio yn nheitlau gwefannau neu yn cael eu defnyddio yng nghynnwys y tudalennau felly mae'n bwysig i fod yn benodol. Y gwefan neu'r dudalen gyda'r mwyaf o eirfa mewn cyffredin â'ch chwiliad bydd yr opsiwn cyntaf i chi, neu bydd yn ymddangos ar ôl y gwefannau sydd wedi eu noddi.

Mae ymadroddion priodol yn hanfodol i feddwl amdanynt wrth greu gwefan. Bydd angen i chi osod unrhyw eirfa chi'n meddwl byddai rhywun yn chwilio er mwyn iddyn nhw allu darganfod eich gwefan chi.

Er enghraifft, os ydych yn chwilio am leoliad i wersylla yng Nghymru, pa eirfa neu ymadroddion byddech yn eu defnyddio?

## Chwiliad 1

Rhestrwch yr eirfa neu'r ymadroddion byddech yn eu defnyddio.

Rhowch yr eirfa yma mewn chwiliad a rhowch giplun (screenshot) isod o'r chwiliad sy'n ymddangos ar ôl clicio "Chwilio" (Search).

## Chwiliad 2

Rhestrwch yr eirfa neu'r ymadroddion byddech yn eu defnyddio.

.

Rhowch yr eirfa yma mewn chwiliad a rhowch giplun (screenshot) isod o'r chwiliad sy'n ymddangos ar ôl clicio "Chwilio" (Search).

## ‘Optimeiddio Canlyniadau Peiriannau Chwilio’

Mae’r eirfa rydych chi’n ei ddefnyddio wrth chwilio yn allwedd i ddarganfod gwefan neu dudalen benodol. Gallwch ‘optimeiddio’ canlyniadau peiriannau chwilio i gynyddu’r nifer o bobl fydd yn dod ar draws eich gwefan wrth ychwanegu geirfa a/neu ymadroddion perthnasol i’r wefan.

## ‘Chwiliad wedi mireinio’

Neu i ddarganfod y wybodaeth a’r gwefannau mwyaf perthnasol i chi, gwnewch '**Chwiliad wedi mireinio**' (‘*Advanced Search*’). Mae chwiliad wedi’i fireinio yn eich caniatáu i roi ymadroddion a geirfa berthnasol yn ogystal â sicrhau bod rhai geirfa ddim yn ymddangos felly bydd y chwiliad a’r gwefannau bydd yn ymddangos yn fwy perthnasol i chi.

### Ymarfer

Gwnewch chwiliad wedi’i fireinio ar yr un chwiliad a chynt (lleoliad i wersylla yng Nghymru).

Ychwanegwch eirfa gall fod yn opsiynol i ymddangos e.e. unrhyw weithgaredd hoffwch wneud yno? Sicrhewch hefyd eich bod yn cynnwys geirfa yn y blychau ar gyfer pethau nad ydych eisiau i ymddangos e.e. unrhyw leoliad penodol nad ydych eisiau mynd iddo?

(Cofnoda dy atebion ar y tudalennau nesaf).

## Chwiliad wedi'i fireindio 1

Dangoswch giplun o'r chwiliad wedi'i fireinio cyn gwasgu "Chwilio" i ddangos eich geirfa.

Gwasgwch "Chwilio" a dangoswch giplun o ganlyniad y chwiliad wedi'i fireinio. Cymharwch y chwiliad wedi'i fireinio gyda'ch chwiliad cyntaf, pa un sydd fwyaf perthnasol?

### Chwiliad wedi'i fireinio 2

Dangoswch giplun o'r chwiliad wedi'i fireinio cyn gwasgu "Chwilio" i ddangos eich geirfa.


Gwasgwch "Chwilio" a dangoswch giplun o ganlyniad y chwiliad wedi'i fireinio. Cymharwch y chwiliad wedi'i fireinio gyda'ch chwiliad cyntaf, pa un sydd fwyaf perthnasol?

## Arbed gwybodaeth rydym yn ei ddarganfod

Mae gwahanol ffyrdd o arbed y wybodaeth rydym yn ei ddarganfod, gallwn:


### Arbed gwefan lawn fel dolen yn ein ffolderi

I arbed y wefan cliciwch ar y tri dot yn y gornel dde ar ben y sgrin, ewch lawr i '*More tools*' yna cliciwch '*Save page as...*' .
Sicrhewch eich bod yn arbed y wefan mewn ffolder perthnasol.




### Ddefnyddio'r wybodaeth o'r gwefannau yn uniongyrchol yn ein gwaith

Sicrhewch eich bod yn nodi ar waelod eich gwaith o ble rydych wedi darganfod y wybodaeth i osgoi llên-ladrad.
Gwnewch hyn wrth gopïo dolen at y wefan a'i ludo yn eich dogfen gyda'r wybodaeth.




### Dangos 'ciplun' (*screenshot*) i ddangos yr hyn rydym wedi ei ddarganfod a'i osod yn glir mewn dogfen *Word*.

I wneud ciplun, defnyddiwch y botwm '*Prt Scr*' ar eich allweddell. Bydd hwn yn copïo popeth sy'n dangos ar eich sgrin ar y foment honno, yna ewch i *Word*.

Gwasgwch 'Gludo' (Botwm '*Paste*' neu gwasgwch 'Ctrl' a 'V' lawr ar yr un pryd ar eich allweddell) a bydd y ciplun yn ymddangos yn y ddogfen.



## Asesu'r wybodaeth

Gallwn wirio os ydy'r wybodaeth rydym yn ei ddarganfod yn ddibynadwy wrth wneud gwiriad CRAAP.

**Mae hwn yn wiriad defnyddiol iawn i'w wneud wrth ymchwilio ar gyfer gwaith cwrs.**

**Gwnewch wiriad CRAAP o'r hyn rydych chi wedi ei ganfod ar gyfer y lleoliad i wersylla yng Nghymru. Atebwch y cwestiynau ym mhob blwch i'ch helpu.**

| CRAAP | | |
|---|---|---|
| **C** | **Cyfredol** (*Currency*)<br>Pryd cafodd y wybodaeth ei gyhoeddi? A yw'r wybodaeth wedi ei diweddaru? A yw'r dolenni yn gweithio? | |
| **R** | **Perthnasedd** (*Relevance*)<br>Pwy yw'r gynulleidfa darged? A yw'r wybodaeth yn cyrraedd eich anghenion? A yw lefel y wybodaeth yn berthnasol i chi? | |
| **A** | **Awdurdod** (*Authority*)<br>Pwy sydd wedi ysgrifennu'r erthygl? A oes ganddyn nhw yr hawl i wneud? A oes gan yr awdur arbenigedd? A yw'r erthygl wedi ei ysgrifennu at ddefnydd cwmni arall? | |
| **A** | **Cywirdeb** (*Accuracy*)<br>A yw'r wybodaeth y gywir? A oes cyfeirnodi cywir neu lyfryddiaeth yn bresennol? Yw'r iaith yn ddiduedd? Oes modd gwirio'r wybodaeth o ffynhonnell arall? | |
| **P** | **Pwrpas** (*Purpose*)<br>Beth yw'r rheswm dros fodolaeth y wybodaeth? A yw'r wybodaeth yn trio gwerthu syniad neu gynnyrch i chi? Ffeithiau / Barn / Propaganda? | |

## Tasg

Gwnewch chwiliad wedi'i fireinio am leoliadau yn y Deyrnas Unedig sy'n llefydd da i syrffio.

Gwnewch giplun o'r chwiliad i ddangos yr eirfa rydych wedi defnyddio ar gyfer y chwiliad a'ch canfyddiadau. Dangoswch y gwefannau a'r lleoliadau rydych wedi eu darganfod ac aseswch y gwefannau i weld os ydynt yn ddibynadwy.

Ciplun o'r eirfa rydych wedi'i ddefnyddio (cyn clicio 'Chwilio')

Dolenni at y gwefannau rydych wedi'u darganfod.

Asesiad CRAAP.

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 5. CYDWEITHIO DIGIDOL

HWB SGILIAU HANFODOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# CYDWEITHIO DIGIDOL

Sut ydych chi'n cyfathrebu gyda phobl yn ddigidol? Pa dechnoleg ydych chi'n eu defnyddio?

**Rhestrwch y dechnoleg a'r adnoddau rydych yn eu defnyddio i gyfathrebu gyda phobl yn eich bywydau bob dydd.**

## Cydweithio cydamserol ac anghydamserol

| Cydweithio cydamserol | Cydweithio anghydamserol |
|---|---|
| • Cydweithio mewn amser "*real*"/ 'ar y pryd' gyda 2 neu fwy o bobl.<br>• Ateb yn syth a dim oedi. | • Cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng 2 neu fwy o bobl heb gael ymateb yn syth ganddynt.<br>• Gall bobl ymateb pan sy'n gyfleus iddyn nhw. |

Esiamplau o gydweithio neu gyfathrebu cydamserol ac anghydamserol:

| Cydamserol | Anghydamserol |
|---|---|
| • Cyfarfod mewn person<br>• Galwad ffôn<br>• Fideo gynhadledd/ gweithdy/ cyfarfod ar-lein e.e. Teams, Zoom a.y.b.<br>• Gofyn cwestiwn cyflym i gydweithiwr<br>• Adnodd ble mae'n bosib golygu/ychwanegu syniadau ar yr un pryd ag eraill<br>• Dosbarth neu weithdy mewn lleoliad go iawn. | • E-bost<br>• Llythyr neu bost uniongyrchol<br>• Neges destun<br>• Neges uniongyrchol e.e. cyfryngau cymdeithasol a.y.b.<br>• Recordiadau e.e. o weithdy, cyfarfod a.y.b.<br>• Mewn ffrwd siarad e.e. Grŵp Teams, Padlet |

Pa fath o ddull cydweithio fyddech chi'n defnyddio ar gyfer y senarios isod?

| Senario | Cydamserol / Anghydamserol | Pa dechnoleg ac adnodd? |
|---|---|---|
| Creu amserlen waith gyda chydweithiwr. | Dewis | |
| Adnewyddu polisïau y gweithle e.e. iechyd a diogelwch. | Dewis | |
| Cynllunio digwyddiad cymdeithasol, rhannu syniadau. | Dewis | |
| Gadael i'ch rheolwr wybod eich bod yn sâl ac yn methu cyrraedd gwaith. | Dewis | |
| Rhannu lluniau gyda ffrind. | Dewis | |

Beth yw'r manteision ac anfanteision o weithio'n gydamserol ac yn anghydamserol?

| | Cydamserol |
|---|---|
| Manteision | • Rhyngweithio cymdeithasol.<br>• Gallu cael ateb "byw" yn syth am gymorth, trafodaethau, rhannu ac adborth eraill.<br>• Gallu darllen tôn llais, mynegiad rhywun wrth siarad (os wrth wyneb yn wyneb).<br>• Ymateb yn syth ac yn cael atebion ac adborth yn syth.<br>• Gallu cael cyfarwyddyd ac arweiniad yn syth |
| Anfanteision / Rhwystrau | • Ddim yn hyblyg – angen bod yr un amser (a lleoliad) yn bosibl i bawb.<br>• Bydd un cyflymder yn rhy araf neu gyflym i rai ddilyn.<br>• Llai o amser i gyfrannu gan fod angen siarad ar y pryd ac i brosesu pethau/ gwneud y gwaith.<br>• Amharu efallai gan broblemau technolegol neu sain (methu cael cyfraniad pawb) a rhannu pethau.<br>• Rhannu fideos ar y pryd yn anodd.<br>• Angen sgiliau da i drefnu a sicrhau eich bod yn cadw at yr amser/ tasgau sydd angen gwneud |
| | **Cydamserol** |
| Manteision | • Hyblygrwydd mewn gwahanol amseroedd a lleoliadau.<br>• Defnyddio pan a phryd sydd angen<br>• Gallu cyrraedd anghenion gwahanol<br>• Gweithio ar gyflymder eich hunain.<br>• Mwy o amser i feddwl am syniadau<br>• Mwy o amser i ddarllen ac ymateb i drafodaethau a chyfraniadau |
| Anfanteision / Rhwystrau | • Gallu bod yn ynysig – teimlo'n bell o'ch gilydd.<br>• Ddim yn derbyn neu oedi wrth gael cymorth, help, esbonio rhywbeth yn fanylach ac adborth y grŵp.<br>• Anodd rheoli cyfraniad pobl.<br>• Yn gallu camddehongli beth mae rhywun yn dweud – ddim yn cael tôn llais, mynegiad rhywun.<br>• Haws i oedi cyfraniad a chyfathrebu – rhwystredig i eraill yn y grŵp |

Pa ddulliau cydweithredol ydych chi'n ei ddefnyddio yn broffesiynol ac yn bersonol?
Beth yw'r buddion a'r risgiau o'u defnyddio yn benodol yn broffesiynol neu'n bersonol?

| Proffesiynol | | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|
| Cydamserol | | | |
| Anghydamserol | | | |

| Proffesiynol | | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|---|
| Cydamserol | | | |
| Anghydamserol | | | |

## Argymhellion am gydweithio effeithiol yn ddigidol

### Darparwch ddigon o wybodaeth.

Meddyliwch o flaen llaw am y math o gwestiynau bydd eich cydweithwyr yn gofyn a rhowch wybodaeth fanwl. Gall hyn osgoi gwastraffu amser a chael cadwyn o gwestiynau dilynol.

### Gosodwch ddyddiadau cau

Byddwch yn gadarn o ran dyddiadau cau a gosodwch rai cyraeddadwy. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o frys sydd angen gwneud y dasg ac os oes angen blaenoriaethu tasgau eraill.

### Rhannwch adnoddau defnyddiol gyda'ch gilydd.

Anfonwch linciau, erthyglau, lluniau ac Adnoddau eraill gall helpu gyda'r dasg.

### Rheolwch yr hysbysiadau.


Gadewch i'ch cydweithwyr wybod os nad ydych ar lein, ddim yn gweithio neu ddim eisiau cael eich tarfu. Hyd yn oed os ydych angen ychydig o amser heb unrhyw darfu neu negeseuon i gwblhau tasg.

## Arbed y cydweithio yn saff

Mae'n bosib arbed y sgwrs a'r syniadau rydych wedi'u casglu wrth wneud cipluniau o'r rhannau mwyaf pwysig neu gallwch arbed y sgwrs/dudalen cyfan.

Er enghraifft, os ydych eisiau arbed llif sgwrs e-byst, agorwch yr e-byst (sicrhewch fod y grŵp cyfan wedi bod yn gwasgu '*Reply all*' fel bod gennych lif y sgwrs i gyd) a chliciwch ar y tri dot bach i ddarganfod mwy o opsiynau a'i lawrlwytho.

Neu gallwch glicio ar 'Argraffu'r cyfan' ('*Print all*'), bydd y sgrin isod yn ymddangos a gallwch newid y '*Destination*' o Argraffydd penodol i Arbed fel PDF ('*Save as PDF*'). Gallwch gadw'r sgwrs wedyn yn y ffolder priodol a bydd y draul o'r sgwrs i gyd yno.



## Tasg Cydweithio

Isod mae grŵp o bobl wedi dechrau rhannu syniadau a gwybodaeth am leoliadau i fynd ar drip ysgol gyda phlant ysgol gynradd yng Nghymru.
Mae angen amrywiaeth o weithgareddau sy'n addas ar gyfer plant o 6 i 11 oed.

Ychwanegwch eich syniadau eich hun gyda chrynodeb o'r syniad sydd gennych a'r wefan gyda'r wybodaeth. Hefyd ychwanegwch sylwadau at syniadau aelodau eraill o'r grŵp, gallwch feddwl am y pellter teithio (o'ch lleoliad chi) ac oes gweithgareddau addas i bob oedran yno?

Catrin
**Urdd Gobaith Cymru**



youtube.com

Gwyliwch y fideo yma - mae'n fideo sy'n dangos cyfleusterau gwersylloedd yr Urdd! Ydych chi'n meddwl byddai'n ddefnyddiol i'w ddangos i'r plant?

**Sioned**
Mae hwn yn dda i ddangos yr amrywiaeth o lefydd sydd gyda'r Urdd a gadael iddyn nhw wneud dewis!

**Rhodri**
Yn bendant! Bydd hwn yn grêt iddynt wneud penderfyniadau ar ba weithgareddau i'w gwneud cyn mynd ar y trip.

Tomos
**Pentre Ifan**



urdd.cymru

**Sioned**
Lle arall gwych! Mae'n leoliad eco hefyd! Gallwch ddysgu meddwlgarwch a chael y plant i ddod oddi ar eu ffonau symudol!

**Tomos**
Beth am Pentre Ifan? Llawer o hanes fan hyn, ac yn agos iawn i Wersyll Llangrannog. Fe allwn ymweld a'r ddau? Beth chi'n meddwl?

**Sioned**
Mae hwn yn debyg iawn i syniad Glan-llyn isa' - bach oddi ar y brif safle ac yn dawelach, ond ddim yn rhy bell i wneud gweithgareddau

**Gruffydd**
Dw i'n meddwl byddai Pentref Ifan yn neis hefyd!

**Rhodri**
Mae'r lle yma yn newydd i fi. Edrych yn ffantastig, ac fel soniwyd yng nghynt, bosib ymuno y trip a mynd i Langrannog hefyd..

Sioned
**Glan-llyn Isa'**



youtube.com

Mae'r fideo yma yn dangos lleoliad Glan-llyn Isa' sy'n addas i grwpiau llai o faint efallai a ddim yn rhy bell o'r gwersyll ei hun i wneud gweithgareddau! Beth yw eich barn chi am hyn?

**Tomos**
Fi'n hoffi'r syniad yma! Gall y plant ymlacio bach yng Nglan-llyn Isa', wedyn cerdded draw i'r gweithgareddau yn ystod y dydd!

**Rhodri**
Mae'r safle newydd yma yn edrych yn grêt. Digon cyfleus i wneud yr holl weithgareddau, ond digon bach am bach o dawelwch ar ddiwrnod prysur.

**Catrin**
Mae'r fideo yma'n dangos safon y safle newydd yn dda, a cytuno gyda chi, cyfleus iawn i wneud gweithgareddau ar y llyn.

Gruffydd
**Cyrsiau**



urdd.cymru

Mae cyrsiau amrywiol ar gael i grwpiau blwyddyn 3-4 a 5-6 yng Nghaerdydd, ond pa fath o weithgareddau bydden nhw'n gwneud yn y Brifddinas?

**Sioned**
Mae'r Gwersyll yn agos iawn i sawl atyniad yn y ddinas yn ol y wefan - maen nhw'n gwneud teithiau ar gwch yn y bae, stadiwm Principality a.y.b. Falle'n fwy addas ar gyfer oed uwchradd oherwydd natur y gweithgareddau? Well gen i'r syniad o fynd a phlant cynradd i Lan-llyn neu Llangranog.

**Rhodri**
Cytuno hefo Sioned. Bydd gwneud gweithgareddau corfforol yn llawer mwy deiniadol i blant ifanc, yn hytrach na gweld safleoedd o gwmpas y ddinas, yn fy marn i.

Rhodri
**Beth am Glan-llyn?**



urdd.cymru

Gweithgareddau gwahanol iawn, ac mae cyfle i'r plant fwynhau'r awyr iach wrth ddysgu llawer o sgiliau pwysig iawn mewn bywyd e.e gweithio fel rhan o dîm a datrys problemau.
Llawer o sbort i bawb!

**Sioned**
Syniad da ar gyfer plant sy'n edrych am rhywbeth fwy eithafol ac yn hoffi gweithgareddau dŵr. A yw'n drutach na Llangrannog?

**Tomos**
Syniad da, newydd edrych ar yr un wefan.

**Sioned**
Mae hefyd opsiwn bach tawelach hefyd os ydyn nhw'n grwpiau llai o faint? Mae Glan-llyn Isa' i lawr y lon ac yn newydd sbon!

Sioned
**Llangrannog?**



urdd.cymru

Beth am fynd a'r dysgwyr i Langrannog? Ddim rhy bell o Gaerdydd a llwyth o weithgareddau iddyn nhw wneud. Beth ydych chi'n meddwl o hyn?

## Dy Syniad Di

*Teitl*

*Cyfeiriad gwefan*

*Disgrifiad byr a sylw*

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 6. CREADIGRWYDD DIGIDOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# CREADIGRWYDD DIGIDOL

Mae sawl math o ffyrdd i greu 'adnodd amlgyfrwng' ('*multimedia resource*'). Gallwch greu cyflwyniad pwynt pŵer, gallwch ddefnyddio unrhyw adnodd i greu cyflwyniad o'r fath neu gwefan, neu greu fideo sy'n cynnwys gwahanol agweddau.

Beth sydd angen cynnwys i greu adnodd amlgyfrwng?

Mae angen cynnwys amrywiaeth o 'gyfryngau' yn yr adnodd i'w wneud yn amlgyfrwng. Mae hyn yn cynnwys testun (*text*), delweddau, fideos a sain. Byddai adnodd amlgyfrwng effeithiol yn cynnwys pob un o'r cyfryngau hyn.

Yn ogystal â'r cyfryngau amrywiol sy'n cael eu cynnwys, mae angen sicrhau bod popeth yn berthnasol i'r pwnc ac yn cael ei ddangos mewn ffordd briodol. Bydd angen ymchwilio i mewn i'r pwnc cyn dechrau creu'r cyflwyniad a chasglu'r gwybodaeth wrth gynllunio'r hyn hoffwch gynnwys.

Os ydych yn cydweithio â eraill, gallwch rannu'r gwybodaeth rydych wedi'i ddarganfod â'ch gilydd i benderfynu ar ba wefannau a wybodaeth i ddefnyddio yn yr adnodd.

Mae'n bwysig hefyd i adolygu penderfyniadau creadigol i sicrhau bod popeth yn glir a bod popeth yn berthnasol. Gwiriwch os ydy popeth rydych chi wedi cynnwys yn eich adnodd mewn lle clir e.e. Ydy'r llun yn berthnasol neu'n ddigon clir? Ydy'r hyper-ddolen yn amlwg i sicrhau ei fod am gael ei ddefnyddio?

Cofiwch wneud gwiriad CRAAP ar y gwybodaeth rydych chi wedi ddarganfod i gychwyn hefyd i sicrhau bod y wefan rydych yn ei ddefnyddio yn ddibynadwy.

## Sut i ddefnyddio creadigrwydd digidol i gwblhau tasg neu ddatrys problem?

Yn amlwg, mae'n ddibynnol pa fath o dasg sydd angen ei gwblhau neu ba broblem sydd. Gallwn fod angen creu poster ar gyfer digwyddiad, tudalen ar gyfer gwefan neu gyflwyniad deniadol i gynulleidfa o ryw fath.

Wrth feddwl pa fath o adnodd hoffwch chi greu, boed yn boster, gwefan neu'n gyflwyniad, mae opsiynau lu ar gyfer gallu creu y mathau hyn o ddogfennau.

Ymchwiliwch ar-lein am wahanol wefannau/meddalwedd byddai'n bosib i greu:

### Poster

### Gwefan

### Cyflwyniad

# Cyfryngau


## Delweddau


**COFIWCH!**
Ewch yn ôl i'r rhan 'Cyfrifoldeb Digidol' i atgoffa eich hun am hawlfraint a'r gwefannau defnyddiol sydd ar gael i ddarganfod lluniau am ddim.


Mae'n bwysig bod eich adnodd yn cynnwys amrywiaeth o luniau i'w wneud yn ddeniadol ac i roi amrywiaeth iddo. Ymchwiliwch am luniau i gychwyn, ond cofiwch wirio os ydy'r lluniau rydych yn eu defnyddio am ddim neu beidio.

Pan rydych chi wedi darganfod y lluniau hoffwch ddefnyddio, lawr-lwythwch nhw i gyd i'ch ffolderi yn eich cyfrifiadur i'w arbed a'u gosod mewn ffeil priodol. Yna dilynwch y camau isod:

1. Ewch i 'Mewnosod' ('*Insert*') > 'Lluniau' > 'Y ddyfais hon' a bydd sgrin yn agor i chi fynd i'r ffolder ble rydych wedi arbed y lluniau.
2. Dewch o hyd i'r ffolder perthnasol a chliciwch ar y llun hoffwch ychwanegu.
3. Cliciwch ar 'Mewnosod' a bydd y ddelwedd yn ymddangos yn eich dogfen.



## Golygu delwedd

Yn aml mae angen golygu maint neu docio lluniau iddynt edrych yn daclus ar ein gwaith. Gallwch wneud hyn drwy ddwbl-glicio ar y llun hoffwch olygu a dylai'r tab 'Fformat y llun' ymddangos.

Mae opsiynau rŵan i olygu'r llun, os oes angen ei roi tu ôl i destun ('Anfon Tua'r Cefn'), rhoi border iddo neu ei Docio ('*Crop*').


I docio delwedd, cliciwch ar y botwm 'Tocio' ac fe fydd llinellau byr amlwg yn ymddangos o gwmpas y llun. Gallwch symud y corneli i mewn i wneud y llun yn fwy cryno fel hyn a phan rydych yn hapus gyda'r tocio, cliciwch 'Tocio' eto i orffen golygu.

Mae'r dechneg hon yn ddefnyddiol wrth wneud cipluniau fel eich bod yn gallu torri rhannau o'r ciplun nad oes angen ynddo.

Ar ôl tocio (os oedd angen), gallwch newid maint y ddelwedd wrth lusgo'r gornel allan neu fewn. Gallwch hefyd ymestyn ochrau'r llun ar wahân ond bydd hyn yn effeithio ar y llun gan iddo ymestyn un ffordd fwy na'r llall, gweler y llun isod.


Felly awgrymwn i chi wasgu '*Shift*' ar eich bysellfwrdd wrth dynnu cornel y ddelwedd i'w wneud yn fwy neu lai i osgoi tarfu ar siâp y ddelwedd ei hun.

Pan mae'r maint yn dangos y ddelwedd yn glir, sicrhewch eich bod yn ei osod yn y man mwyaf priodol yn eich adnodd. Os ydych yn bwriadu gosod testun dros y llun, sicrhewch fod yr ysgrifen yn ddigon clir i'w ddarllen felly o bosib bydd angen newid lliw yr ysgrifen, neu symud y llun i fan gwahanol.




## Fideos

1. I ychwanegu fideo i'ch adnodd, yn gyntaf mae angen darganfod fideo hoffwch gynnwys. Pan rydych wedi darganfod fideo perthnasol, cliciwch ar y 'bar cyfeiriad' ('*address bar*') sydd ar ben y dudalen a bydd y ddolen gyfan yn uwch-oleuo'n las. Copïwch y ddolen o'r bar cyfeiriad ac ewch yn ôl at eich dogfen.




2. Ewch i 'Mewnosod', 'Cyfryngau' ('*Media*'), 'Fideo' a chliciwch ar 'Fideos Ar-lein'.








3. Bydd y ffenest yma'n ymddangos. Gludwch y ddolen i mewn i'r blwch ac fe fydd yn chwilio am y fideo i chi.

4. Pan fydd wedi llwytho cliciwch ar 'Mewnosod' ac fe fydd yn ychwanegu y fideo i'ch dogfen. Gallwch olygu maint y fideo a'i symud fel gwnaethoch ar gyfer y delweddau.

5. Sicrhewch fod y fideo a'r sain yn gweithio wrth glicio ar y botwm 'Chwarae' ('*Play*') yng nghanol y fideo wrth gyflwyno. Gallwch ychwanegu saeth at y fideo gyda nodyn 'Cliciwch yma!' i sicrhau bod unrhyw un a fydd yn edrych ar yr adnodd hwn yn gwybod bod fideo i'w chwarae yno.







## Mewnosod sain


Mae'n bosib ychwanegu cerddoriaeth neu sain i'ch adnodd. Os ydy'r sain ar eich cyfrifiadur yn barod, sicrhewch eich bod yn gwybod ble mae wedi cael ei gadw er mwyn ei ganfod yn rhwydd o'ch dogfen.


Os nad ydy'r sain ar eich cyfrifiadur yn barod, gallwch chwilio am y sain hoffwch gynnwys neu gallwch recordio rhywbeth eich hun. Cofiwch os ydych yn chwilio am sain neu gerddoriaeth i'w ddefnyddio, gwiriwch yr hawlfraint cyn eu defnyddio.

1. I ychwanegu sain ewch i 'Mewnosod', 'Cyfryngau', 'Sain' ac os ydy'r sain ar eich cyfrifiadur, cliciwch a chanfod y ffeil perthnasol a'i ychwanegu. Os ydych angen recordio, cliciwch i recordio sain a bydd y sgrin isod yn ymddangos.




2. Cliciwch y botwm coch i ddechrau recordio a sicrhewch bod eich meicroffon yn gweithio.
3. Pan rydych wedi gorffen recordio cliciwch ar y sgwâr (stop) a chwaraewch y recordiad i wirio os ydych yn hapus gyda'i gynnwys.
4. Pan rydych yn hapus, cliciwch 'Iawn' a bydd yn cael ei ychwanegu i'r ddogfen.
5. Gwiriwch bod y recordiad yn gweithio wrth gyflwyno a sicrhewch eich bod yn ei wneud yn amlwg bod angen i'r defnyddiwr glicio arno i glywed ei gynnwys.
   Gallwch wneud hyn drwy roi saeth ac ysgrifen wrth ei ymyl e.e. 'Gwrandewch ar hwn!'




# Technegau

## Defnyddio templed

Mae defnyddio templed yn dechneg sy'n gwneud i bob sleid gydweddu.
Gallwch wneud hyn wrth greu adnodd newydd, agorwch yr adnodd o'ch dewis.


1. Cyn clicio i greu cyflwyniad gwag gallwch glicio i weld 'Mwy o themâu' i ddewis o'r templedi sydd ar gael.
2. Neu gallwch greu un gwag plaen a dewis o'r templedi gwag sydd yn y rhan 'Dyluniad' (*Design*).
3. Pan rydych wedi dewis templed rydych eisiau ei ddefnyddio, cliciwch arno a dylai unrhyw sleid rydych yn ychwanegu fod â'r un dyluniad.











## Newid y cynllun lliw

Mae'r dechneg o newid cynllun lliw yn sicrhau bod y sleidiau yn cydweddu ac yn edrych yn fwy deiniadol.

1. Yn eich dogfen, ewch i 'Dyluniad' a chliciwch ar 'Fformatio'r Cefndir'.
2. Dewiswch o'r opsiynau lliw sydd yn ymddangos wrth glicio ar y saeth wrth y pot paent neu gallwch ddewis batrwm, gwead neu raddiant ar gyfer y sleidiau.
3. Chwaraewch gyda'r gwahanol opsiynau i ganfod y math o gefndir hoffwch ar eich adnodd.

Gallwch arbed y cefndir lliw hwn ar gyfer y sleid penodol rydych arno neu gallwch ei ddefnyddio ar bob sleid wrth glicio ar 'Defnyddio gyda'r Cyfan'.




## Amseru

Wrth greu cyflwyniad gallwch ychwanegu’r dechneg ‘amseru’ sy’n eich caniatáu i osod amser penodol ar gyfer pob sleid. Bydd yn mynd yn awtomatig (heb angen i glicio) ar ôl yr amser. Gallwch hefyd ychwanegu effaith i’r sleid drosi o un i’r llall.


1. Ewch i’r rhan ‘Symud o un i’r llall’ a gallwch weld y dewis o’r effeithiau i’r sleid ymddangos.
2. Ar y dde gallwch weld y rhan ‘Symud sleid ymlaen’. O dan hwn mae yna focs i'w dicio os hoffwch i’r sleid fynd yn ei flaen ‘Wrth glicio’r llygoden’ neu ‘Ar ôl’. Os ydych yn dewis ‘Ar ôl’ gallwch nodi yr amser hoffwch dreulio ar y sleid penodol hwn. Bydd y sleid yn trosi i’r sleid nesaf yn awtomatig ar ôl yr amser yma.
3. Pan rydych yn barod, chwaraewch y cyflwyniad i wirio ei fod yn rhedeg yn llyfn.



# Animeiddio

Gall ddefnyddio animeiddio ychwanegu amrywiaeth i adnodd a'i wneud yn fwy deniadol. Mae'n newid sut mae testun neu ddelwedd yn ymddangos a'r effaith mae'n rhoi pan mae ar y sleid.


1. Ewch i 'Animeiddiadau'.
2. Cliciwch ar y testun neu'r ddelwedd hoffwch ychwanegu effaith iddo. Gallwch ddewis i'r animeiddiadau ymddangos heb angen clicio wrth ei osod i ddechrau 'Gyda'r un Flaenorol' neu 'Ar ôl yr un Flaenorol'.
3. Dewiswch yr effaith ar gyfer y gwybodaeth. Gallwch ychwanegu mwy nag un effaith ar bob sleid i wahanol bethau.
4. I aildrefnu'r animeiddiadau cliciwch ar 'Symud yn Gynharach' neu'n 'Hwyrach' i'w rhoi yn y drefn hoffwch chi.





## Hyper-ddolenni

Mae ychwanegu hyper-ddolenni yn dechneg ddefnyddiol iawn sy'n caniatáu'r gynulleidfa i wneud darllen pellach ond mae'n bwysig eu gosod yn daclus fel nad ydynt yn amharu ar y sleidiau.

1. I ychwanegu hyper-ddolen, yn gyntaf mae angen mynd i'r wefan hoffwch ychwanegu ddolen ato. Copïwch y ddolen o'r bar cyfeiriad yn eich chwilotwr gwe.
2. Yna ewch yn ôl i'ch dogfen. Bydd angen gludo'r ddolen i mewn yno yn daclus. Ysgrifennwch destun fel ei fod yn amlwg bod dolen yno i glicio arno e.e. 'Cliciwch yma i ddarllen mwy!' ac uwch-oleuwch hwnnw.
3. Yn y rhan 'Mewnosod' (*Insert*), cliciwch ar 'Dolen' a gludwch y ddolen rydych wedi'i gopïo yno.
   Bydd hyn yn tanlinellu'r testun gwnaethoch uwch-oleuo ac yn ei droi'n las.
   Wrth i chi hofran dros y testun glas wedi'i danlinellu bydd y wefan rydych wedi'i ychwanegu yn ymddangos .
4. I wirio bod y hyper-ddolen yn gweithio, gwasgwch '*Ctrl*' a chliciwch ar y ddolen a dylai fynd â chi yn syth at y wefan gwnaethoch chi ddewis.



## Ymarfer

Mae buddion a risgiau o ddefnyddio wahanol gyfryngau neu dechnegau.

**Gallwch chi feddwl am rai? Llenwch y blychau isod.**

| Defnyddio... | Budd | Risg |
|---|---|---|
| Templed | Cefndir a ffont deniadol wedi cael eu dewis yn barod | Testun ddim yn glir gyda'r cefndir |
| Delwedd | | |
| Amseru | | |
| Sain | | |
| Animeiddio | | |
| Hyper-ddolen | | |
| Fideo | | |

HWB
SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN LLYTHRENNEDD DIGIDOL

# 7. DYSGU DIGIDOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

t1.01 - 2021

# DYSGU DIGIDOL

Mae'r technoleg a'r amrywiaeth o adnoddau rydych yn ei ddefnyddio yn rhoi llwybr i chi ddysgu yn ddigidol. Mae sawl ffordd o wneud hyn, pa dechnoleg neu adnodd ydych chi yn eu defnyddio i ddysgu yn ddigidol?

Mae sawl arddull o ddysgu hefyd ac mae person fel arfer yn ffafrio un math o ddysgu dros un arall. Gallwch fod yn ffafrio cymysgedd ohonynt, golygai hyn eich bod yn dysgu mewn sawl ffordd gwahanol, efallai yn hafal, neu efallai yn ddibynnol ar y pwnc.



## Gweledol

Dysgu trwy weld.



## Cinesthetig

Dysgu trwy wneud pethau yn ymarferol.




## Darllen ac Ysgrifennu

Dysgu trwy gymryd mewn gwybodaeth sydd yn arddangos fel geiriau neu destun.



## Clywedol

Dysgu trwy wrando ar gyfarwyddiadau.

Cwblhewch yr holiadur isod i ddarganfod eich arddull ddysgu dewisol!
Ticiwch y blwch sydd fwyaf perthnasol i chi, ticiwch fwy os oes mwy nac un ateb yn berthnasol.

**1. Wrth ddysgu am bwnc penodol, rydw i'n:**

- ☐ A. Darllen llyfrau ac erthyglau i wneud nodiadau
- ☐ B. Siarad gydag eraill am y pwnc
- ☐ C. Chwilio am esiamplau
- ☐ D. Gweld patrwm yn y gwaith

**2. Rydw i'n trefnu gweithgareddau mewn lleoliad sy'n ddieithr i mi, rydw i'n:**

- ☐ A. Darllen am y lleoliad a gwneud rhestr
- ☐ B. Siarad gyda rhywun sydd wedi bod yn y lleoliad
- ☐ C. Chwilio am weithgareddau a defnyddio map
- ☐ D. Edrych ar brif atyniadau'r lleoliad

**3. Mae angen i mi ddysgu sut i dynnu lluniau gwell, rydw i'n:**

- ☐ A. Darllen gwybodaeth am y camera a'i nodweddion
- ☐ B. Gwylio fideo sy'n rhoi esboniad clir
- ☐ C. Dilyn cyfarwyddiadau ysgrifenedig
- ☐ D. Defnyddio diagram o'r camera sy'n dangos beth mae pob botwm yn ei wneud

**4. Rydw i'n dysgu sut i chwarae gêm newydd, rydw i'n:**

- ☐ A. Darllen y cyfarwyddiadau
- ☐ B. Gwrando ar rywun yn esbonio'r cyfarwyddiadau
- ☐ C. Gwylio eraill yn ei chwarae cyn ymuno
- ☐ D. Defnyddio diagramau o'r wahanol gyfnodau/symudiadau y gêm

**5. Mae angen i mi adeiladu dodrefn hunan-osod, rydw i'n:**

- ☐ A. Defnyddio'r cyfarwyddiadau sydd wedi dod gyda'r dodrefn
- ☐ B. Cael cymorth gan rywun sydd â phrofiad
- ☐ C. Gwylio fideo o berson yn adeiladu dodrefn tebyg
- ☐ D. Dilyn diagramau o'r camau

**6. Mae'n well gen i ddysgu gan rywun sy'n defnyddio:**

- ☐ A. Taflenni, llyfrau a darllen pellach
- ☐ B. 'Cwestiwn ac ateb', siarad, trafodaethau
- ☐ C. Esiamplau, arddangos a sesiynau ymarferol
- ☐ D. Diagramau, graffiau a mapiau

Casglwch eich atebion i ddarganfod eich canlyniadau. Os ydych wedi ateb y mwyafrif:

**A. Rydych yn dysgu orau wrth ddarllen ac ysgrifennu.** Rydych yn hapus i ddarllen, gwneud ymchwil pellach a gwneud llawer o nodiadau i gofio yr holl wybodaeth.

**B. Rydych yn dysgu orau yn glywedol.** Rydych yn hoffi gwrando ar gyfarwyddiadau yn hytrach na eu darllen a gwneud nodiadau. Yn debygol, rydych yn cofio sgyrsiau a geiriau caneuon yn dda ac yn siarad ac esbonio pethau ar lafar yn hyderus.

**C. Rydych yn dysgu orau yn ginesthetig.** Rydych yn ffafrio dysgu symudiadau corfforol i gof ac yn hoffi gwneud pethau eich hun trwy gyffwrdd, adeiladu a darlunio. Rydych yn debygol o gofio pethau'n well ar ôl i chi gael profiad o'i wneud eich hunan.

**D. Rydych yn dysgu orau yn weledol.** Rydych yn hoffi gweld y gwybodaeth yn hytrach na gwrando arno ac yn prosesu gwybodaeth mewn diagramau a lluniau'n effeithlon. Rydych yn debygol o fod yn gwneud nodiadau a diagramau wrth ddysgu.

Pa arddull ddysgu sydd yn gweddu orau gyda chi?

## Ffyrdd o ddysgu ar-lein

Ymchwiliwch beth mae'r termau yma'n golygu a disgrifiwch bob un a meddyliwch os ydynt yn ddulliau o ddysgu cydamserol neu'n anghydamserol:

| Ffordd o ddysgu | Cydamserol / Anghydamserol | Disgrifiad |
| --- | --- | --- |
| E-ddysgu | | |
| Dysgu cymysg (*blended learning*) | | |
| Dysgu o bell (*distanced learning*) | | |

### Tasg

Ewch ati i edrych ar y senarios canlynol.

Pa fath o ddysgu sydd orau gan y dysgwr hyn a pham?

### Senario 1

- Mae Lisa eisiau dysgu Sbaeneg.
- Mae'n fam i 3 o blant dan 10 oed ac nid oes ganddi gar.
- Mae ei Mam yn gallu helpu gyda'r plant 2 waith yr wythnos.
- Mae eisiau dysgu Sbaeneg er mwyn gallu helpu magu ei phlant yn ddwyieithog gyda'i phartner.
- Mae Lisa yn hoffi siarad ac yn mwynhau sgwrsio gydag eraill ac fe wnaeth hi ddysgu wrth fynd ymlaen gyda'i swydd bresennol drwy wylio eraill yn gwneud.
- Mae'n casáu darllen pethau ac yn diflasu'n hawdd.
- Bydd yn well gyda Lisa ddysgu yn y nos nag yn y bore.

Pa arddull dysgu byddai orau i Lisa?

Pam?

Pa ffordd o ddysgu ar-lein fyddai'n fwyaf priodol?

### Senario 2

- Mae gan Iwan blentyn byddar yn mynychu'r feithrinfa/ ysgol. Mae eisiau gallu helpu'r plentyn fel rhan o'i rôl fel dirprwy brifathro a helpu staff eraill i ddeall sut i gyfathrebu gyda'r plentyn.
- Mae'n berson sy'n hoffi darllen ac ymchwilio'n fanwl i mewn i bwnc.
- Mae'n berson academaidd gyda gradd meistr.
- Mae'n gweithio oriau hir ac nid oes ganddo amser i fynychu gwersi mewn person ar ôl gwaith na chwaith i gael hyfforddiant adeg gwaith.

Pa arddull dysgu byddai orau i Iwan?

Pam?

Pa ffordd o ddysgu ar- lein fyddai'n fwyaf priodol?

### Senario 3

- Mae Delyth eisiau cael syniadau ar gyfer ei harddangosfa yn yr ystafell ddosbarth.
- Mae'n dysgu orau drwy wylio fideos ac edrych ar esiamplau gan eraill.
- Dydy Delyth ddim yn gyfarwydd iawn gyda defnyddio technoleg ond mae ganddi ffôn clyfar.
- Does gan Delyth ddim gliniadur na chyfrifiadur ac mae'n dueddol o sgrolio ar ei ffôn.

Pa arddull dysgu byddai orau i Delyth?

Pam?

Pa ffordd o ddysgu ar- lein fyddai'n fwyaf priodol?

### Senario 4

- Mae Tomos yn gogydd ac eisiau gwneud cwrs busnes er mwyn gallu agor bwyty ei hun.
- Mae ganddo blentyn ifanc gyda'i ŵr.
- Mae'n gweithio dros 40 awr yr wythnos ac felly angen cwrs hyblyg gallai wneud yn ei amser rhydd.
- Mae'n dysgu orau drwy gysgodi pobl ac efelychu eu symudiadau.
- Mae Tomos yn hoffi datrys problemau yn ogystal â gweithio tuag at dargedau amser.
- Mae gliniadur gan Tomos ac mae'n teimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio technoleg.

Pa arddull dysgu byddai orau i Tomos? __________

Pam? __________

Pa ffordd o ddysgu ar- lein fyddai'n fwyaf priodol? __________

## Tasg creu adnodd a gwerthuso penderfyniadau

### Senario

Mae angen i chi greu adnodd amlgyfrwng ar gyfer cwmni teithio rhyngwladol sydd eisiau hysbysebu Cymru fel prif leoliad antur i ymwelwyr. Bydd angen i'r teithwyr ddefnyddio'r adnodd i ddarganfod yr wybodaeth eu hunain felly mae angen sicrhau ei fod yn glir sut i'w ddilyn a'i ddefnyddio.

Sicrhewch fod o leiaf 3 cyfrwng wahanol (mae angen iddo gynnwys rhyw fath o sain), o leiaf 2 ddelwedd neu fideo ac o leiaf 5 techneg.

Pa dechnoleg dewisoch chi?

**Gwerthuso'r dechnoleg:** Pam dewisoch chi'r dechnoleg yma? Beth wnaethoch chi weld yn hawdd? A oedd unrhyw anawsterau? Daethoch chi ar draws problemau – sut wnaethoch chi ddatrys hyn?

Pa dechnoleg arall byddech chi wedi gallu defnyddio?

Pa adnodd dewisoch chi?

**Gwerthuso'r adnodd:** Pam dewisoch chi'r adnodd yma? Beth wnaethoch chi weld yn hawdd? A oedd unrhyw anawsterau? Daethoch chi ar draws problemau – sut wnaethoch chi ddatrys hyn?

Pa dechnoleg arall byddech chi wedi gallu defnyddio?

Pa adnodd dewisoch chi?

**Gwerthuso'r adnodd:** Pam dewisoch chi'r adnodd yma? Beth wnaethoch chi weld yn hawdd? A oedd unrhyw anawsterau? Daethoch chi ar draws problemau – sut wnaethoch chi ddatrys hyn?

Ydych chi'n teimlo bod yr adnodd yn bodloni gofynion y dasg ac anghenion y gynulleidfa?

Meddyliwch am gywirdeb y gwybodaeth, dyluniad yr adnodd a pha mor hawdd ydyw i'w ddefnyddio.

HWB
SGILIAU HANFODOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol